# Mae Anabledd Dysgu Cymru yn chwilio am ymddiriedolwyr newydd



Wneud Cymru y wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu a gweithio ynddi.

## Beth yw ymddiriedolwr?



Ymddiriedolwr ydy rhywun sy’n rhoi eu hamser nhw am ddim i helpu i reoli elusen. Mae’n rôl gyfreithiol bwysig.

Fel ymddiriedolwr Anabledd Dysgu Cymru fe fyddwch chi yn:




- deall ein pwrpas ni a gwneud yn siŵr ein bod ni’n gwneud popeth rydyn ni’n ddweud ein bod ni’n mynd i’w wneud




- gwneud yn siŵr ein bod ni’n gweithio o fewn y gyfraith




- gwneud yn sir ein bod yn dilyn ein rheolau (ein Memorandwm, Erthyglau Cymdeithasiad a Chyfraith Cwmnïau)



- dewis Cadeirydd a Thrysorydd



- gwneud yn siŵr ein bod ni’n gwario ein harian yn gywir



- ein helpu ni i benderfynu pa waith byddwn ni yn ei wneud yn y dyfodol



- ein helpu ni i ofalu am ein staff ni



- cymryd rhan yng nghyfarfodydd ein Bwrdd Ymddiriedolwyr Pwyllgor Rheoli ni ac is-grwpiau eraill.

# I fod yn ymddiriedolwr mae angen i chi:



☑ Fod yn 18 oed neu drosodd



☑ Cytuno â a chefnogi cenhadaeth, gwerthoedd a phwrpas Anabledd Dysgu Cymru




☑ Bod yn hapus bod yn ymddiriedolwr tan ein CCB yn 2026



☑ Gallu gwrando a siarad mewn cyfarfodydd



☑ Meddu ar y sgiliau a'r profiad sy'n ein helpu ni i reoli Anabledd Dysgu Cymru



☑ Mynychu pedwar cyfarfod ymddiriedolwyr y flwyddyn yn ystod dyddiau'r wythnos ac is-grwpiau os ydych yn dewis. Cynhelir cyfarfodydd ar Zoom neu wyneb yn wyneb. Byddwn yn talu am eich taith



☑ Peidio â bod wedi eich gwahardd rhag bod yn ymddiriedolwr

## I fod yn ymddiriedolwr, hoffen ni i chi hefyd gael rhai o'r rhain:



- Eisiau gwella bywydau pobl gydag anabledd dysgu, eu teuluoedd nhw a'u gofalwyr nhw



- Gwybod beth mae'n rhaid i chi ei wneud i fod yn ymddiriedolwr



- Gwybod am y materion sy'n effeithio ar bobl gydag anabledd dysgu



- Deall arian




- Gallu deall a siarad Cymraeg



- Deall sut mae corff yn cael ei reoli



- Gwybod am gyflogi staff a gofalu amdanyn nhw.

# Sut i wneud cais




Llanwch y ffurflen gais ymddiriedolwr a'I hanfon atom ni erbyn 31 Hydref 2023.



Yna fe fyddwn ni'n gofyn i rywun sydd yn eich adnabod chi i ysgrifennu geirda – llythyr lle maen nhw'n dweud wrthyn ni am y pethau rydych chi'n gallu eu gwneud.



Wedyn, gofynnwn ni i'n haelodau eich ethol yn ein CCB ar **8 Tachwedd 2023**.

# Anabledd Dysgu Cymru

Rydyn ni:



- yn elusen Cymru gyfan a chwmni cyfyngedig trwy warant



- yn gorff aelodaeth sy'n gweithio gyda'i aelodau e a'I bartneriaid

- yn cael arian gan Lywodraeth Cymru, Cronfa'r Loteri Fawr a ffynonellau eraill.



Mae gennym ni 23 o bobl yn gweithio i ni.

# Rhagor o wybodaeth



## Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau cysylltwch â:

Joanne Moore yn Anabledd Dysgu Cymru



**Ffôn:** 029 2068 1160



**E-bost:** joanne.moore@ldw.org.uk